# Heb eu Gweld – Heb eu Hawliau?

Darparu Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol mewn Cartrefi Plant yng Nghymru



Dr. Anne Crowley

Tachwedd 2019

www.tgpcymru.org.uk

TGP Cymru yw enw gweithredol Tros Gynnal Plant, Elusen Gofrestredig Rhif 1099878.
Cofrestrwyd yn gwmni cyfyngedig drwy warant, Rhif 04422485 (Cymru a Lloegr).
Swyddfa Gofrestredig: 12 Ffordd y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY.

*Mae eiriolaeth yn ymwneud â: siarad ar ran plant a phobl ifanc, gan rymuso plant a phobl ifanc i wneud yn siŵr bod eu hawliau yn cael eu parchu a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed bob amser, mynegi barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a'u helpu i fynd drwy'r system.*

Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019)

Elusen annibynnol ar gyfer plant yng Nghymru yw **TGP Cymru**. Mae'n gweithio gyda rhai o'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi eu hymyleiddio fwyaf yng Nghymru. Gallant fod yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau priodol ym maes iechyd, addysg neu ofal cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys plant ag anableddau, plant ag anghenion iechyd emosiynol a phlant sy'n ceisio lloches.

Mae Prif Swyddfa TGP Cymru yng Nghaerdydd ac mae prosiectau ledled Cymru yn cynnig cymorth annibynnol a chyfrinachol i blant, pobl ifanc a theuluoedd drwy eiriolaeth, cyfranogaeth, cwnsela, cyfarfodydd grŵp i deuluoedd, dulliau adferol a datrys gwrthdaro. Mae'r sefydliad hefyd yn cynnig cymorth eiriolaeth i'r rhai sy'n wynebu problemau iechyd a lles emosiynol ac mae'n cynhyrchu pasbortau cyfathrebu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu. Mae TGP Cymru yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gan roi llais iddynt fel y gallant leisio barn am eu dyfodol a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal.

# CYDNABYDDIAETH

Cafodd yr astudiaeth gwmpasu ei llywio gan grŵp ymgynghori ymroddedig a gwybodus a byddai'r dasg wedi bod yn amhosibl hebddo. Hoffai TGP Cymru ddiolch i holl aelodau'r grŵp, gan gynnwys cynrychiolwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru, Voices from Care, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (y 4C), Penaethiaid Gwasanaethau Plant, y trydydd sector, a nifer o ddarparwyr gofal preswyl preifat ac annibynnol yn ogystal â phobl ifanc â phrofiad o ofal. Hoffem ddiolch yn benodol i: Jade Pescod, Zac Robinson, Helen Argyle (Unique Homes, Ltd.), Duncan Pritchard (Senad Group), Paul O'Donnell (Priory Childcare), Debbie Osbourne a Rhian Hughes (Priory Group Ltd.), Karen Benjamin o’r 4C, Anne Batley o RhCT ac Emma Sullivan o Plant yng Nghymru. Diolch arbennig hefyd i TGP Cymru (Natalie Brimble a Zoe Morgan) a’r 4C (Andrea O'Shea) am ein helpu ni i siarad gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fyw mewn cartrefi plant. Hoffem ddiolch hefyd i Catriona Williams o Plant yng Nghymru am gadeirio'r grŵp cynghori ac i Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth a'u cymorth wrth hwyluso cysylltiad â nifer o randdeiliaid perthnasol yn ogystal â'u cyngor ynghylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a'r Codau Ymarfer cysylltiedig a Chylch Gorchwyl grwpiau gorchwyl amrywiol Llywodraeth Cymru.

Hoffai TGP Cymru ddiolch hefyd i’r Paul Hamlyn Foundation y mae eu cymorth dros y deunaw mis diwethaf wedi galluogi'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion i'w hystyried gan Llywodraeth Cymru. Pennwyd yr argymhellion hyn gan TGP Cymru gyda chyngor gan y grŵp cynghori, ond nid yw pob un o'r argymhellion wedi eu cymeradwyo gan bob aelod o'r grŵp cynghori.

# CYNNWYS

**1. Cyflwyniad** 1

**2. Cefndir** 2

- Waterhouse a'r ymgyrch dros eiriolaeth statudol i blant sy'n derbyn gofal.
- Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol
- yng Nghymru
- Plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn gofal preswyl.
- Cofrestru ac Arolygu cartrefi gofal plant.
- Consortiwm Comisiynu Plant Cymru.
- Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog - Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant.

**3. Dulliau** 11

**4. Canfyddiadau** 13

- Proffil o gartrefi plant yng Nghymru a phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi gofal.
- Y graddau y mae gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ar gael i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant.
- Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol sy'n lleoli i roi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc o'i hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a sut i gael gafael ar wasanaeth.

**5. Casgliadau ac Argymhellion** 28

**Atodiad A: Rhestr Termau** 32

**Atodiad B: Sefydliadau a gymerodd ran yn yr astudiaeth gwmpasu**

# CYFLWYNIAD

1.1 Dyma'r adroddiad ar ddarn o waith cwmpasu a gomisiynwyd gan TGP Cymru ac a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru. Nod y prosiect yw mapio’r graddau y mae cymorth eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant yng Nghymru; meithrin dealltwriaeth ynghylch sut mae plant sy'n byw mewn gofal preswyl yng Nghymru yn cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth eiriolaeth ac ymgynghori â rhanddeiliaid er mwyn penderfynu ar y ffyrdd gorau o sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael i bob plentyn a pherson ifanc pobl sy'n byw oddi cartref mewn gofal preswyl yng Nghymru.

1.2 Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr i ddarparu gwasanaethau eirioli i blant sy'n derbyn gofal o dan adran 174 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn Lloegr o dan adran 26A o Ddeddf Plant 1989. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu neu gomisiynu'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y sicrheir bod y ddarpariaeth hon ar gael i blant a phobl ifanc sy'n byw ym mhob un o’r cartrefi plant yng Nghymru.

1.3 Pwyslais yr adroddiad yw plant sy'n byw mewn cartrefi gofal sydd wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru hefyd yn byw oddi cartref mewn ysgolion preswyl, lleoliadau iechyd meddwl preswyl ac yn wir lleoliadau preswyl eraill na chaiff eu rheoleiddio. Nid yw'r astudiaeth gwmpasu yn ystyried gallu plant i gael gafael ar eiriolaeth yn y lleoliadau hyn, ond rydym yn argymell y dylid archwilio hyn.

1.4 Mae'r adroddiad yn nodi y cefndir a’r fframwaith polisi ar gyfer darparu gofal preswyl i blant yng Nghymru ac ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol. Mae’n disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr astudiaeth hon, yn cyflwyno canfyddiadau’r astudiaeth gwmpasu ac yn cloi gyda nifer o argymhellion i Llywodraeth Cymru eu hystyried. Mae'r atodiadau'n cynnwys Rhestr Termau a rhestr o sefydliadau a gymerodd ran yn yr astudiaeth.

1.5 Dangosodd ymchwiliad Waterhouse pa mor bwysig yw hi fod plant mewn gofal preswyl yn gallu cael gafael ar rywun annibynnol y tu allan i'r sefydliad, yn rheolaidd[1]. Wrth inni nesáu at 20 mlwyddiant Waterhouse, mae'n amserol adolygu'r trefniadau o ran gallu plant mewn gofal preswyl yng Nghymru i gael gafael ar eiriolaeth annibynnol,

---

[11] Adroddiad ‘Ar Goll Mewn Gofal’ Tribiwnlys yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant mewn Gofal yn Ardaloedd Cyngor Sir blaenorol Gwynedd a Chlwyd ers 1974

er mwyn ystyried pa mor rhwydd yw hi i'r plant gael gafael ar eiriolaeth os oes ganddynt bryderon neu os oes angen cymorth arnynt i godi eu lleisiau.

# CEFNDIR

**Waterhouse a'r ymgyrch dros eiriolaeth statudol i blant sy'n derbyn gofal**

2.1 Un o'r tasgau cyntaf ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol cyntaf Cymru, a oedd newydd ei ethol, oedd ymateb i argymhellion ymchwiliad Waterhouse i gam-drin plant mewn gofal cyhoeddus[2]. Roedd yr adroddiad ar yr ymchwiliad yn dangos yn glir bod plant wedi'u hamddifadu o'u hawliau ac na wrandawyd ar blant a oedd yn agored i niwed a oedd yn byw oddi cartref mewn gofal preswyl a bod oedolion wedi methu â'u hamddiffyn nhw. Roedd ymateb y Cynulliad Cenedlaethol i Waterhouse yn cynnwys sefydlu comisiynydd plant cyntaf y DU ac ehangu'r ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol yng Nghymru. Mae datblygiad y ddarpariaeth eirioli i blant mewn gofal wedi parhau yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf – yn fwyaf diweddar gan gyflwyno'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn dilyn yr adolygiad o wasanaethau eiriolaeth a arweiniwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn 2012.[3]

2.2 Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, rydym wedi dod yn llawer rhy gyfarwydd â bregusrwydd plant a phobl ifanc sydd wedi eu rhoi mewn gofal preswyl. Mae'r angen i sicrhau bod plant o'r fath yn gallu cael gafael ar rywun annibynnol y tu allan i'r sefydliad yn rheolaidd - yn ffaith gydnabyddedig bellach. Cyflwynwyd darpariaeth yn Neddf Plant 1989 a roddodd yr hawl i blant gael cefnogaeth gan eiriolwr annibynnol os oeddent yn dymuno codi pryderon fel modd o ddiogelu plant yn ogystal â'u cynorthwyo i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau. Un peth a ddysgwyd o'r ymchwiliadau niferus i gam-drin plant yw bod y dioddefwyr yn aml wedi codi eu lleisiau ond na wnaeth yr oedolion a allai fod wedi rhoi terfyn ar y cam-drin wrando arnynt na'u cymryd o ddifrif.

2.3 Mae'r un neges yn parhau i ymddangos yn glir iawn heddiw – ni wrandewir ar blant sy'n agored i niwed (gan gynnwys plant yn y system gofal) ac ni chânt eu cymryd o ddifrif. Daeth y neges honno o'r ymchwiliad a ddatgelodd fod o leiaf 1,400 o blant wedi dioddef camfanteisio rhywiol dros gyfnod o 16 mlynedd yn Rotherham. Ceir y neges honno hefyd yn y datgeliadau diweddar am blant a gafodd eu cam-drin gan aelodau o'r Eglwys Gatholig a cham-drin plant gan ddynion enwog – megis Jimmy

[22] Lost in Care Report of the Tribunal of Inquiry into the Abuse of Children in Care in the Former County Council Areas of Gwynedd and Clwyd since 1974
[3] Lleisiau Coll

Savile, Rolf Harris a Gary Glitter. Nid oedd pob un o ddioddefwyr y troseddau erchyll hyn, sydd wedi dod i'r amlwg yn fwy diweddar, yn blant yn y system gofal, ond roedd llawer ohonynt - ym mhob achos o'r fath. Fel y dengys adroddiad Alexis Jay (i'r cam-drin yn Rotherham) yn glir, am lawer o resymau cymhleth, mae statws gofal plant yn cyfrannu at eu bregusrwydd a'r risgiau y camfanteisir arnynt a'u bod yn cael eu cam-drin. Mae gwneud synnwyr o'r camfanteisio hyn sy'n ailadrodd ei hun yn heriol, ond rydym yn gwybod bod sefydlu systemau a datblygu diwylliannau lle gall plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl godi eu lleisiau ynddynt, lle bydd rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cymryd o ddifrif yn allweddol.

**Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol yng Nghymru**

2.4 Mae eiriolaeth yn gweithredu ar nifer o lefelau, Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol, Eiriolaeth Ffurfiol ac Eiriolaeth Anffurfiol/Eiriolaeth gan Gymheiriaid ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am rwydwaith ategol o gymorth. Mae hanes hir a brith yng Nghymru o ran datblygu polisi ar eiriolaeth i blant, ond adolygiad Comisiynydd Plant Cymru blaenorol, yn 2012, o Wasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal a phlant mewn angen a symudodd y drafodaeth yn ei blaen tuag at gamau gweithredu. Amlyga adroddiad Keith Towler, 'Lleisiau Coll', nifer o broblemau â'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol, gan godi pryderon nad oedd plant a phobl ifanc yn y system ofal yn gwybod am eu hawliau i gael eiriolaeth annibynnol[4].

2.5 Yn dilyn hyn, gwahoddodd Gweinidogion Cymru lywodraethau lleol i gyflwyno model er mwyn sicrhau 'Dull Cenedlaethol' o weithredu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen ac unigolion penodedig eraill. Casglwyd Grŵp o Uwch Arweinwyr, a oedd yn cynnwys y Comisiynydd Plant, i oruchwylio datblygiad y Dull Cenedlaethol. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gadeiriwyd gan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Llywodraeth Cymru, darparwyr gwasanaethau eirioli a phartneriaid eraill. Rhoddwyd y dasg i'r grŵp o ddatblygu elfennau allweddol ar gyfer Dull Cenedlaethol o weithredu (y gellid ei chysoni wedyn â'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau) ac ystyriwyd y ffordd orau o fwrw ymlaen ag argymhelliad y 'Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth' o adroddiad y Comisiynydd:

[4] Comisiynydd Plant Cymru (2012) Lleisiau Coll: yr Hawl i gael eu Clywed

*Dylai awdurdodau lleol wneud cynnig gweithredol o eiriolaeth i blentyn neu berson ifanc ar yr adeg gynharaf bosibl wedi i'r plentyn ddod yn rhan o'r system ofal statudol neu gael ei gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai'r cynnig hwn ddigwydd trwy gyfarfod wyneb-yn-wyneb rhwng y plentyn neu berson ifanc ac Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol fel ei fod yn cael gwybodaeth lawn am ei hawliau a'i hawlogaethau ac yn cael gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy mewn perthynas â rôl eiriolaeth annibynnol. Dylai'r cynnig gweithredol barhau trwy gydol y cyfnod y mae plentyn neu berson ifanc mewn gofal, a chael ei fonitro trwy ei adolygiadau statudol gan y Swyddog Adolygu Annibynnol.*

Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru[5]

2.6 Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol wedi bod ar waith ers Gorffennaf 2017. Ei nod yw:

- Gwella cydraddoldeb o ran y gallu i ddefnyddio gwasanaeth eirioli ledled Cymru
- Sicrhau y bydd yr holl ddarparwyr eiriolaeth ac eiriolwyr yn gweithio gyda'r Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Canlyniadau ac ochr yn ochr â nhw.
- Sicrhau dull a gwasanaeth safonol ar gyfer pob Awdurdod Lleol.
- Darparu gwybodaeth am y canlyniadau lles sy'n deillio o ymyriadau eiriolaeth
- Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gwybod am eiriolaeth.

2.7 Mae'r *Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth* yn un o elfennau y ddarpariaeth newydd o eiriolaeth statudol sy'n cynnwys cyfarfod rhwng plentyn neu berson ifanc ac eiriolwr pan fo'r plentyn yn dod i ofal neu pan fo'r plentyn yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant. Yn y cyfarfod hwn, mae'r plentyn yn cael gwybod am ei hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, am wahanol fathau o eiriolaeth a gwybodaeth am y Gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol lleol, y Comisiynydd Plant, Llinell Gymorth Meic, a'r hawl i gwyno.

2.8 Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn cynnwys Manyleb Gwasanaeth craidd sy'n amlinellu'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu mewn contractau rhanbarthol a gomisiynir ynghyd ag ôl troed Rhanbarthol y Bwrdd Iechyd. Os oes cartref plant a gynhelir gan awdurdod lleol yn y rhanbarth, bydd gwasanaeth ymweliadau eiriolaeth yn cael ei gynnwys yn y contractau rhanbarthol. Ar hyn o bryd, darperir gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol gan y ddau sefydliad eiriolaeth

[5] Llywodraeth Cymru (2019) Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol Ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

cofrestredig yng Nghymru - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a TGP Cymru.

2.9 Hyd yma, mae'r gwaith o weithredu'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol wedi canolbwyntio ar ddarparu a mireinio'r Cynnig Rhagweithiol *o Eiriolaeth* a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar eiriolaeth yn seiliedig ar broblem. Cyflwynwyd offeryn ystod a lefel hefyd ar gyfer rhoi gwybod am gostau contractau er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaethau adnoddau priodol, sy'n caniatáu rhagor o gyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth gan gynyddu'r nifer sy'n manteisio arno. Ariannodd Llywodraeth Cymru y Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth am ddwy flynedd gyntaf y rhaglen weithredu hon.

2.10 Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Eiriolaeth yn parhau i gyfarfod ac mae bellach yn adrodd i Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru. Ei nod yw llywio a monitro gweithrediad Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol a'r Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth. Mae arfarniad diweddar gan y grŵp o ddarparwyr gwasanaethau eirioli ar gyfer plant wedi nodi'r angen i adolygu a diweddaru'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yng ngoleuni datblygiadau newydd, gan gynnwys: y trefniadau newydd ar gyfer cofrestru ac arolygu cartrefi gofal plant (Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol), Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer eiriolwyr proffesiynol annibynnol a Rhan 10 o God Ymarfer (Eiriolaeth) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant diwygiedig sydd ar ddod.

2.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Canlyniadau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn ddiweddar. Maent yn nodi'r canlyniadau y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl yn gysylltiedig ag eiriolaeth plant a phobl ifanc. Mae'n gosod fframwaith y gall darparwyr gwasanaethau eirioli a'r rhai sy'n eu comisiynu eu defnyddio i fod yn sicr bod y safonau hynny'n cael eu cyflawni, gan eu galluogi i ddangos tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc[6].

[6] Llywodraeth Cymru (2019) Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

**Ymweliadau Eiriolaeth Preswyl**

Gelwir gwasanaethau ymweliadau eiriolaeth preswyl ym Manyleb Gwasanaeth y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn 'Ymweliadau Preswyl'. Fel yr awgryma'r enw, bydd eiriolwr yn ymweld â chartref plant neu leoliad gofal preswyl ar amser penodedig rheolaidd. Bydd yr eiriolwr sy'n ymweld yn gweithio i feithrin perthynas llawn ffydd â'r plant a'r bobl ifanc dros gyfnod o amser gan fod ar gael i helpu ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am eu gofal. Bydd yr eiriolwr sy'n cynnal yr ymweliadau preswyl yn sicrhau bod gwybodaeth am CCUHP, gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol, Comisiynydd Plant Cymru, Llinell Gymorth Meic a ChildLine yn cael eu harddangos ac yn hygyrch.

Mae manteision eraill ymweliadau eiriolaeth preswyl yn cynnwys datrys problemau pobl ifanc cyn iddynt waethygu, cydgysylltu â'r gwasanaeth eirioli sydd dan gontract â'r awdurdod lleol sy'n lleoli, darparu hyfforddiant i staff ar eiriolaeth a hawliau plant, a hwyluso cyfarfodydd ymgynghori ac adborth gyda phlant a phobl ifanc. Mae ymweliadau eiriolaeth preswyl yn ddull ychwanegol o ddiogelu plant a phobl ifanc ac fe'i hystyrir yn arfer gorau o ran darpariaeth breswyl. Mae nifer o gartrefi plant annibynnol, ysgolion, unedau diogel a lleoliadau gofal iechyd preswyl yn comisiynu gwasanaeth ymweliadau eiriolaeth preswyl.

2.12 Mae eiriolaeth wedi ei hymwreiddio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Cymru drwy'r Cod Ymarfer pwrpasol o dan Ran 10. Ategir hyn drwy amlygu pwysigrwydd eiriolaeth ym mhob cod ymarfer perthnasol a gyhoeddir o dan y Ddeddf, a wnaed yn unol â'r broses o ddatblygu Rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau eirioli, o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2018. O dan Ran 10 o Ddeddf 2014, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer darparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal, plant sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol, a phlant sydd ag anghenion gofal a chymorth. Mae'n rhaid i'r cymorth hwn gynnwys cymorth drwy gynrychiolaeth. Mae hyn, yn ei hanfod, yn ailadrodd ac yn disodli'r ddyletswydd yn adran 26A o Ddeddf Plant 1989, sydd wedi ei diddymu a'i disodli o dan adran 174 o Ddeddf 2014. Mae'r Cod Ymarfer o dan Ran 10 yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

**Plant sy'n derbyn gofal a gofal preswyl**

2.13 Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 38% yn ystod y degawd diwethaf. Roedd 6,407 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru ar 31 Mawrth 2018, sef cynnydd o 464 (8 y cant) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chyfradd o 102 i bob

10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed[7]. Yng Nghymru a Lloegr, mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yn amrywio'n fawr ac mae gan lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru gyfraddau uwch na'r rhai hynny yn Lloegr. Nodir nifer o resymau dros y duedd hon gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol yn osgoi cymryd risgiau yn dilyn achosion proffil uchel megis Peter Connelly (Baby P), ymwybyddiaeth a disgwyliadau cynyddol o gamau gweithredu ar faterion megis cam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol, gwasanaethau nad oes ganddynt y gallu i ymyrryd nes bod argyfwng a gwahaniaethau yn y boblogaeth sylfaenol[8].

2.14 Mae adroddiad diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn nodi bod bron i dri chwarter y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth, a bod y nifer a leolir gyda gofalwyr sy'n berthnasau bron wedi dyblu yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, wrth i nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu, bu cynnydd yn y defnydd o asiantaethau maethu annibynnol ac yn nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir[9].

2.15 Roedd y rhai a oedd yn byw mewn cartrefi plant, naill ai yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol neu wedi eu cofrestru'n breifat neu'n wirfoddol, yn cynrychioli llai na 5% (299 o blant) ar 31 Mawrth 2018. Fodd bynnag, codwyd pryder ynghylch cynnydd mewn costau lleoli a gallu rhai o'r cartrefi i ddiwallu anghenion y plant a leolir ynddynt. Er bod y niferoedd yn parhau i fod yn isel, mae nifer y plant sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi plant cofrestredig preifat neu wirfoddol wedi bod yn cynyddu ers 2016[10].

2.16 Diffinnir gofal preswyl fel ystod o ddarpariaethau gan gynnwys cartrefi a hosteli sy'n destun rheoliadau cartrefi gofal; hosteli a lleoliadau preswyl cefnogol nad ydynt yn destun rheoliadau cartrefi gofal; unedau diogel; y GIG neu sefydliadau eraill sy'n darparu gofal meddygol neu ofal nyrsio; carchardai ac ysgolion preswyl[11]. Mae'r astudiaeth gwmpasu hon yn canolbwyntio ar gartrefi plant sy'n destun rheoliadau cartrefi gofal (Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol). Mae cartrefi plant yn eiddo i awdurdodau lleol, cwmnïau preifat a sefydliadau elusennol ac yn cael eu gweithredu ganddynt. Mae adroddiad diweddar yn dangos sut y mae nifer y gwelyau mewn cartrefi plant cofrestredig yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf - cyfanswm o 665 yn 2017[12]. Mae'r sector gofal preswyl annibynnol wedi tyfu yn ystod yr un cyfnod wrth i lefel y ddarpariaeth breswyl gan awdurdodau lleol ostwng.

[7] Experimental Statistics (Tachwedd, 2018) Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2017-2018
[8] Hodges, H. a Bristow, D. Wales (2019) Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru Papur Gwybodaeth. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
[9] Ibid
[10] Ibid
[11] Ibid
[12] Data Cymru (2018) Proffil o Ofal Preswyl Plant yng Nghymru.

2.17 Mae'r sector gofal preswyl annibynnol wedi tyfu yn ystod yr un cyfnod wrth i lefel y ddarpariaeth breswyl gan awdurdodau lleol ostwng. Ym mis Mawrth 2019, roedd 178 o gartrefi plant wedi eu cofrestru, 23 o'r rhain yn cael eu darparu gan awdurdod lleol a 155 gan ddarparwyr sector preifat neu wirfoddol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 12% o ran gwasanaethau a 6% o ran lleoedd ers mis Mawrth 2018[13]. Ychydig a wyddys am broffil presennol y plant sydd wedi eu lleoli mewn gofal preswyl yng Nghymru[14] ond dywed adroddiad AGC, ar 31 Mawrth 2018, fod cyfanswm o 435 o blant wedi eu lleoli mewn cartrefi gofal i blant yng Nghymru, a bod 325 o'r plant hynny wedi eu lleoli gydag awdurdodau lleol yng Nghymru a 110 ohonynt gan gomisiynwyr yn Lloegr. Mae hyn yn dangos bod oddeutu chwarter y lleoliadau (25%) wedi eu comisiynu gan awdurdodau lleol yn Lloegr (ac eithrio gofal seibiant byr)[15].

**Cofrestru ac Arolygu cartrefi gofal plant**

2.18 Cofrestrir ac arolygir cartrefi sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc gan AGC. Cyflwynodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 drefniadau newydd. Ar ôl blwyddyn bontio, mae trefniadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol newydd wedi bod yn gwbl weithredol ers mis Ebrill 2019.

2.19 Mae'n rhaid i bersonau sy'n dymuno darparu gwasanaethau cartref gofal i blant wneud cais i gofrestru gydag AGC sy'n gweithredu fel rheoleiddiwr y gwasanaeth ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol arfaethedig ddangos y byddant yn gallu bodloni'r gofynion a osodir gan y Ddeddf a'r Rheoliadau a phan fyddant wedi eu cofrestru, y byddant yn parhau i'w bodloni. Er mwyn caniatáu cais i gofrestru, mae'n rhaid i AGC fod yn fodlon y gall unrhyw ddarparwr gwasanaethau a reoleiddir arfaethedig fodloni'r safonau ar gyfer darparu gwasanaeth a bennir mewn Rheoliadau o dan adran 27 o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i AGC fod yn fodlon hefyd y gall personau sydd wedi eu penodi yn unigolion cyfrifol yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir mewn Rheoliadau o dan adran 28 o'r Ddeddf ac y byddant yn gwneud hynny. Mae AGC yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio'r penderfyniadau i ganiatáu neu wrthod ceisiadau gan unigolion sy'n dymuno cofrestru fel darparwr gwasanaethau.

2.20 Ar gyfer cartrefi plant, mae'r rheoliadau'n cynnwys gofynion i bolisïau a gweithdrefnau penodol fod ar waith, gan gynnwys ar gyfer diogelu, defnyddio dulliau rheoli neu atal, meddyginiaeth, cwynion a chwythu'r chwiban. Mae'n rhaid i'r darparwr

[13] Arolygiaeth Gofal Cymru (2019) Adolygiad Cenedlaethol o Ofal i Blant yng Nghymru
[14] Elliot, M., Staples, E., Scourfield, J. (2016) Residential Care in Wales: the characteristics of children and young people placed in residential settings. CASCADE, Cardiff University (adroddiad ar gyfer Cyngor Gofal Cymru)
[15] Arolygiaeth Gofal Cymru (2019) Adolygiad Cenedlaethol o Gartrefi Gofal Plant yng Nghymru 2018-2019

gwasanaethau sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny. Ar ôl cofrestru, bydd gwasanaethau cartrefi gofal yn destun archwiliadau blynyddol gan AGC a byddant yn cael eu cymharu â chyfres o feini prawf craidd. Os oes gan AGC bryderon neu os yw diffyg cydymffurfio yn broblem, mae'n bosibl y bydd arolygiadau AGC yn fwy rheolaidd.

2.21 Mae AGC yn cynnal adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal plant[16] a oedd i fod i gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2019. Nod yr adolygiad yw:

- Disgrifio'r farchnad cartrefi gofal ar gyfer plant yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Gwerthuso pa mor dda y mae cartrefi gofal plant yn hybu eu lles ac yn eu helpu i gyflawni canlyniadau da.
- Darparu dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon (Hydref 2019), nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi o hyd, er i adroddiad cynnar i Grŵp Cynghori'r Gweinidog nodi bod AGC wedi canfod bod y trefniadau mewn cartrefi plant ar gyfer hwyluso'r gallu i gael eiriolaeth annibynnol yn dameidiog. Y disgwyl yw y bydd un o'r argymhellion yn yr adroddiad yn nodi y dylid gweithredu i wella'r trefniadau o ran gallu plant i gael eiriolaeth ac ymwelwyr annibynnol.

**Consortiwm Comisiynu Plant Cymru**

2.22 Partneriaeth sy'n cynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yw Consortiwm Comisiynu Plant Cymru neu'r 4C. Mae'r 4C wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn comisiynu lleoliadau gofal i blant a phobl ifanc. Maent wedi sefydlu fframweithiau gofal cymdeithasol cydweithredol ar gyfer gwasanaethau lleoli plant sy'n derbyn gofal Maeth a Phreswyl yn ogystal â chynhyrchu nifer o offerynnau a phrosesau i hwyluso'r gwaith o baru lleoliadau unigol, dyfarnu a monitro contractau, rheoli risg cydweithredol, a sicrhau ansawdd darparwyr. Fe'n cynghorir bod defnyddio'r ddau Fframwaith yn helpu i sicrhau bod nifer cynyddol o blant yn cael eu lleoli gyda darparwyr y mae eu hansawdd wedi eu sicrhau yn ogystal ag yn lleihau costau i awdurdodau lleol. Mae'r Fframweithiau Maeth a Phreswyl yn darparu ateb caffael strategol i anghenion lleoli Plant sy'n Derbyn Gofal yn y sector annibynnol, gan ddileu'r angen am broses gaffael lawn ar gyfer pob lleoliad.

2.23 Mae awdurdodau lleol yn cael cymorth, felly, drwy'r Fframweithiau, i ddiwallu anghenion lleoliadau gyda darparwyr am brisiau a bennwyd ymlaen llaw neu am

[16] Gwefan Arolygiaeth Gofal Cymru Adolygiad Cenedlaethol o Gartrefi Gofal Plant

brisiau gwell drwy'r broses o baru lleoliadau unigol. Mae'r 4C wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau comisiynu strategol a gyda darparwyr i annog darpariaeth newydd i Gymru lle ceir bylchau ar hyn o bryd gan hwyluso partneriaeth strategol gyda darparwyr lleoliadau i ddatblygu modelau gofal newydd sy'n cynnig atebion newydd i faterion lleoli, a chan ddarparu gwell ganlyniadau a gwerth am arian. Y nod yw sefydlu dull cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau i blant.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

2.24 Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru ran allweddol hefyd. Yn ogystal â chofrestru gweithwyr a rheolwyr mewn cartrefi plant, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain ac yn cefnogi gwelliant mewn gofal cymdeithasol a'r broses o ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol fel bod ganddynt 'yr wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen cymorth'. Mae plant sy'n derbyn gofal yn un o'u tri maes blaenoriaeth ac maent yn gwneud nifer o bethau i ddatblygu gweithlu cynaliadwy ac arferion proffesiynol da yn y maes. Mae'r sefydliad yn gweithio'n agos gyda darparwyr annibynnol, awdurdodau lleol, AGC, ac yn ddiweddar, maent wedi lansio adnodd gwybodaeth ar-lein ar gyfer gweithwyr gofal plant preswyl, sy'n dwyn ynghyd astudiaethau achos, data ac ymchwil. Maent hefyd yn cyhoeddi canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal plant preswyl ac yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyfnewid arferion i archwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda o ran gwella gofal a chymorth i blant a phobl ifanc ac i wneud trefniadau ar gyfer cynhadledd genedlaethol ar ofal plant preswyl ym mis Chwefror 2020. Maent yn gweithio gyda darparwyr gofal preswyl i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gweithwyr a gwella ansawdd y gofal a gynigir i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal.

**Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau ar gyfer Plant**

2.25 Mae nifer o ddatblygiadau perthnasol iawn yn digwydd yn gysylltiedig â darparu gofal preswyl i blant. Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Preswyl gan Llywodraeth Cymru i oruchwylio rhaglen waith a gynlluniwyd i ymdrin ag amrywiaeth o faterion a amlygwyd gan ymchwil ac adolygiadau diweddar, gan gynnwys: y capasiti gofal preswyl - y modelau gofal, yr ansawdd a'r lleoliad[17]. Mae'r grŵp yn adrodd yn uniongyrchol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant, sy'n cael ei gadeirio gan David Melding AC ac sy'n rhoi cyngor i'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

[17] Gan gynnwys: adroddiad Care Crisis Review; ac astudiaethau a gomisiynwyd gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog - Profile of Children's Residential Care in Wales, Data Cymru; Residential Care in Wales: the characteristics of children and young people placed in residential settings, CASCADE; evaluation of new and emerging models of care (Cordis Bright); estyniad o When I'm Ready ar gyfer gofal preswyl (Voices in Care a Cognition Associates); canllawiau arferion da ar leoliadau y tu allan i'r ardal (Brian Paget)

2.26 Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar wella'r broses o gasglu data, fel bod gwell dealltwriaeth o broffil y plant mewn gofal preswyl; ar werthuso modelau newydd o ofal preswyl yn ogystal â rhai sy'n dod i'r amlwg, yn arbennig y rhai sy'n defnyddio dulliau therapiwtig neu ddulliau sy'n seiliedig ar drawma; ac ar gynhyrchu canllawiau arferion ar leoliadau y tu allan i'r ardal a lleoliadau trawsffiniol. Elfen allweddol o'r gwaith fu datblygu cynigion ar gyfer datblygu gofal preswyl i blant a phobl ifanc ar ben uchaf y continwwm anghenion, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o fynd i lety diogel. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu dull strategol cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn parhau â rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar ofal preswyl yng Ngham 3 o'i rhaglen waith Gwella Canlyniadau i Blant (2018-21)[18].

[18] Grŵp cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant Rhaglen Waith Gryno 2018-21

# DULLIAU

3.1 Cam cyntaf y prosiect oedd cynnal arolwg o gartrefi plant a'r sefydliadau sy'n eu cynnal er mwyn canfod pa drefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i annog a chefnogi'r bobl ifanc sy'n byw yn y cartref(i) i ddefnyddio eiriolwr proffesiynol annibynnol. Gofynnodd yr arolwg i'r darparwyr pa drefniadau oedd ganddynt ar waith i'w gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol, pa mor dda, yn eu barn nhw, yr oedd y trefniadau hynny'n gweithio yn ymarferol ac a oedd ganddynt syniadau o ran sut y gellid gwella'r trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ar gael i bob plentyn a leolir mewn gofal preswyl yng Nghymru.

3.2 Defnyddiwyd dulliau holi tebyg yn y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid. Pa drefniadau oedd ar waith? Sut yr oeddent yn gweithio yn ymarferol? Sut y gellid gwella'r gallu i ddefnyddio gwasanaeth eirioli? Gofynnwyd i bobl ifanc a oeddent yn gwybod am eu hawl i gael eiriolwr annibynnol ac, os felly, sut yr oeddent wedi clywed am hynny a beth oedd eu barn am y modd yr oedd hynny'n gweithio yn ymarferol. Gofynnwyd iddynt hefyd am syniadau ac awgrymiadau ynghylch sut y dylai pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant glywed am wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a sut i gael gafael arni.

3.3 Fe wnaethom ofyn am gyngor gan y grŵp cynghori prosiect ynghylch pa randdeiliaid i'w cynnwys. Aethom at Benaethiaid Gwasanaethau Plant drwy'r arweinwyr eiriolaeth rhanbarthol, rheolwyr busnes y byrddau diogelu rhanbarthol ac amrywiaeth o ddarparwyr cartrefi gofal plant annibynnol a gwasanaethau eirioli annibynnol. Ymgynghorwyd â dros 80 o randdeiliaid, neu cynhaliwyd cyfweliad â nhw, fel y nodir yn Ffigur 1 isod.

**Ffigur 1: Cyfweliadau ac ymgynghoriadau: categori a rhif**

| Categori | Rhif |
|---|---|
| Pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant neu a oedd wedi byw mewn cartref plant neu hostel yn ddiweddar | 52 |
| Gwasanaethau Plant (Penaethiaid gwasanaeth a rheolwyr gweithrediadau) | 8 |
| Darparwyr gofal preswyl i blant (awdurdod lleol, preifat a gwirfoddol) gan gynnwys rheolwyr gwasanaethau, rheolwyr cartrefi, unigolion cyfrifol, a pherchnogion. | 9 |
| Darparwyr eiriolaeth i blant – rheolwyr, rheolwyr achos a chyngor ac eiriolwyr sy’n cynnal ymweliadau preswyl. | 11 |

| | |
|---|---|
| Eraill gan gynnwys: Plant yng Nghymru, Voices from Care, Barnardo's, y 4C, Arolygiaeth Gofal Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, Byrddau Diogelu Rhanbarthol y Rheolwyr Busnes | 8 |
| **CYFANSWM** | **88** |

3.4 Yn olaf, adolygwyd y fframwaith deddfwriaethol a'r datblygiadau polisi mwyaf perthnasol yng Nghymru er mwyn llywio’r ddealltwriaeth o gyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol sy’n lleoli, arferion comisiynu, y Rheoliadau newydd sy'n cwmpasu cofrestru ac arolygu cartrefi plant a'r elfennau perthnasol o’r hyn a ddysgwyd o adolygiad cenedlaethol o gartrefi plant AGC. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Mehefin a chanol mis Medi. Dadansoddwyd canlyniadau'r arolwg gan ddefnyddio Excel a dadansoddwyd y cyfweliadau yn thematig. Ar ddechrau mis Medi, trafodwyd y canfyddiadau allweddol a rhai o'r argymhellion drafft gyda grŵp cynghori'r prosiect.

# CANFYDDIADAU

**Proffil o gartrefi plant yng Nghymru a phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi gofal**

4.1 Mae proffil gofal preswyl i blant yng Nghymru yn newid. Mae adroddiad diweddar gan Data Cymru yn dangos sut y mae'r sector gofal preswyl i blant wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i lefel y ddarpariaeth breswyl a ddarperir gan awdurdodau lleol leihau. Ym mis Mawrth 2018, roedd tua 150 o gartrefi plant yng Nghymru. Er hynny, mae nifer a lleoliadau cartrefi plant a gynhelir gan ddarparwyr preifat yng Nghymru yn newid yn barhaus ac roedd 178 ohonynt wedi eu cofrestru gydag AGC ar 31 Mawrth 2019. Yr amcangyfrif mwyaf diweddar yw bod y sector annibynnol yn berchen ar 155 o'r gwasanaethau hyn, a dim ond 23 o gartrefi plant yng Nghymru yn eiddo i awdurdod lleol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos goruchafiaeth gynyddol y sector annibynnol sy'n berchen ar ychydig dros 85% o'r holl ddarpariaeth.

4.2 Mae tuedd gynyddol i gwmnïau neu sefydliadau unigol fod yn berchen ar fwy nag un cartref plant. Amcangyfrifwyd ym mis Rhagfyr 2017 bod tua dwy ran o dair o gartrefi plant cofrestredig yn y sector annibynnol yn eiddo i naw darparwr (rhai ohonynt yn gweithio ledled Cymru a Lloegr). Roedd darparwyr gofal preswyl a oedd yn berchen ar bump neu fwy o gartrefi plant yn cynrychioli tua 65% o gyfran y farchnad o gartrefi plant sy'n gweithredu yng Nghymru[19]. Y pum darparwr oedd: Keys (22 o gartrefi plant); Priory (9); CareTech Community Services (8); Bryn Melyn Care (9); Gweithredu dros Blant (8); Landsker Child Care (7), Stepping Stones Care Services (7); Priority Childcare (6); Genus Care (5).

4.3 Yn 2017, bu’n anodd i Data Cymru ganfod o gofnodion AGC y gwahanol fathau o ofal a ddarperir, er enghraifft, gofal therapiwtig cyffredinol neu newid i’r model gofal annibynnol. Gan ddefnyddio datganiad o ddiben pob lleoliad a disgrifiad o'r gwasanaeth yn adroddiad yr arolwg diweddaraf, roedd yr ymchwilwyr yn gallu dirnad bod 72% o gartrefi plant cofrestredig (107 o leoliadau) yn cynnig gofal therapiwtig cyffredinol a gwasanaethau arbenigol, 28% o gartrefi plant cofrestredig yng Nghymru (42 allan o 149 o leoliadau) a 40% o welyau yng Nghymru - yn gweithredu fel gwasanaeth seibiant/arhosiad byr neu'n gweithredu model gofalu ar gyfer plant ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anableddau corfforol.

4.4. Mae proffil y plant sy'n byw mewn cartrefi plant cofrestredig yn anodd ei ddirnad hefyd o'r wybodaeth sydd ar gael. Roedd lleoliadau preswyl ar gyfer plant a oedd yn

[19] Ibid

derbyn gofal yn cyfrif am oddeutu 6% o'r holl blant a leolwyd (355 o blant yn 2017 gan fod yn sefydlog yn ystod y 5 mlynedd flaenorol). Roedd y mwyafrif helaeth – 74% o blant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018 wedi eu lleoli mewn lleoliadau gofal maeth, sy'n ostyngiad graddol mewn cyfran o'i gymharu â 2012, pan yr oedd yn 79 y cant. Roedd y rhan fwyaf o blant a leolwyd mewn gofal preswyl rhwng 10 a 15 oed. Mae bechgyn yn fwy tebygol na merched o gael eu lleoli mewn gofal preswyl, gyda chymhareb o 60:40. Y rheswm mwyaf cyffredin pam fyddai plentyn yn dechrau lleoliad mewn gofal preswyl oedd cam-drin ac esgeulustod, a oedd yn cyfrif am 48% o'r plant a oedd yn derbyn gofal a oedd yn dechrau mewn lleoliadau preswyl.[20]

**Y graddau y mae gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ar gael i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant**

4.5 Ar ôl e-bostio holiadur arolwg i bob un o'r 178 o gartrefi plant cofrestredig yng Nghymru, fe gawsom holiaduron wedi ei llenwi gan 20 o gartrefi (rheolwyr cartrefi gofal neu reolwyr uwch o dîm prif swyddfa'r cwmni). Roedd tri o'r cartrefi yn darparu gofal seibiant/arhosiad byr ar gyfer plant ag anableddau, ac roedd 17 yn darparu gofal amser llawn. Roedd gan bob un o'r cartrefi hynny a ddarperir gan yr awdurdod lleol (4) a'r sector gwirfoddol (2) gontractau ar waith ar gyfer ymweliadau eiriolaeth. Gyda darparwyr eiriolaeth cofrestredig yr oedd y contractau ac roeddent yn cynnwys eiriolwr a oedd yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd (pob mis fel arfer), deunydd yn cael ei arddangos yn amlwg i ddweud wrth bobl ifanc pwy oedd yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau a sut i gysylltu ag ef (rhif Rhadffôn) a gwybodaeth ynghylch amser ei ymweliad nesaf.

4.6 Gan gartrefi plant yn y sector preifat yr oedd gweddill yr arolygon a ddychwelwyd inni (14). O'r rhain, dywedodd 10 bod ganddynt gontractau ymweliadau eiriolaeth preswyl un ai gyda TGP Cymru (7) neu Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (3). Nododd dau ohonynt drefniadau cytundebol eraill i unigolyn ymweld â'r cartref yn rheolaidd - nid oedd y swyddogaeth yn glir. Fel y disgrifiodd un ymatebydd: '*mae gennym ymwelydd/eiriolwr annibynnol sy'n dod i'r tŷ unwaith y mis i ymweld â'r bobl ifanc, a siarad â nhw, ond mae ef ar gael iddynt gysylltu ag ef ar unrhyw adeg yn ôl yr angen'*

4.7 Mewn cartref preifat arall i blant lle nad oedd unrhyw drefniadau cytundebol ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ar waith, dywedodd y rheolwr fod y plant yn cael gwybod am eu hawl i gael cymorth eiriolaeth annibynnol gan y staff yn y cartref. '*Gofynnir i bob plentyn am eiriolaeth pan fydd yn cael ei dderbyn. Os nad oes ganddo eiriolwr, rydym ni'n gofyn iddo a fyddai'n hoffi cael un – caiff hyn ei gofnodi yn ei broffil*

[20] Ibid

*a'i gynllun personol. Fe fyddwn ni hefyd yn cyfeirio'r plant drwy wybodaeth yn eu canllawiau i blant y byddan nhw'n eu cael cyn iddyn nhw gael eu derbyn yma neu ar ôl hynny, mae'n cynnwys gwybodaeth am eiriolaeth a'r cyswllt….Pe byddai person ifanc yn dymuno cael eiriolwr, fe fyddem ni'n mynd drwy ei weithiwr cymdeithasol ardystiedig neu'n ei gyfeirio yn y canllawiau i TGP Cymru'.*

4.8 Mewn cartref plant arall nad oedd â chontract ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl, esboniodd y rheolwr eu bod nhw'n '*dweud wrth y plant drwy ein canllawiau croeso, sesiynau gwaith allweddol ac mewn cyfarfod pobl ifanc pwy y dylen nhw gysylltu ag ef i gael eiriolaeth, a sut i wneud hynny. Mae* Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol wedi eu *gwahodd i'r cartref i drafod gwasanaeth i blant'….… Nid yw ein plant presennol wedi bod eisiau na theimlo bod angen cymorth Eiriolaeth arnynt ar hyn o bryd ond maen nhw'n ymwybodol eu bod nhw'n gallu cael cymorth Eiriolaeth os bydd hynny'n newid'.* Dywedodd rheolwr arall, *'pe bydden nhw'n gofyn, yna fe fyddem ni'n cysylltu ag eiriolwr ar eu cyfer'.*

***Ymweliadau Eiriolaeth Preswyl***

4.9 O Ebrill 2019, roedd 13 o awdurdodau lleol a oedd wedi eu cofrestru gyda AGC yn cynnal 23 o gartrefi plant. Roedd 17 ohonynt yn darparu gwasanaeth amser llawn yn hytrach na gofal seibiant/arhosiad byr. Ymatebodd traean o'r rhain i'n harolwg gan nodi bod trefniadau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ar waith, a phob un ond un ohonynt o dan y contractau rhanbarthol. Roedd ymholiadau gan ddarparwyr eiriolaeth yn dangos bod gan bob un o'r 17 o gartrefi plant a gynhelir gan awdurdod lleol ac sy'n darparu gofal amser llawn drefniadau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl (neu y bydd hyn ar gael yn fuan)[21]. Hefyd, mae gan rai, ond nid pob un o gartrefi gofal yr awdurdod lleol sy'n darparu gofal seibiant/arhosiad byr, gontractau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl.

4.10 I'r rhan fwyaf o'r rhain, mae eiriolwr penodol yn ymweld â'r cartref bob mis, sy'n galluogi'r plant a'r bobl ifanc i ddod i'w hadnabod nhw. Mae posteri ar hysbysfwrdd yn y cartref, a rhifau rhadffôn er mwyn cysylltu â nhw ar adegau eraill. Fe'n cynghorwyd, yn gyffredinol, bod staff gofal preswyl sy'n gweithio mewn cartrefi a gynhelir gan awdurdodau lleol yn cael rhywfaint o hyfforddiant sy'n codi ymwybyddiaeth am eiriolaeth – beth yw eiriolaeth a sut y gall y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal gael eiriolaeth – drwy'r eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl.

4.11 Mae ein hasesiad o'r trefniadau presennol o ran y ddarpariaeth gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant a gynhelir gan y sector preifat yn amhendant oherwydd nifer isel yr arolygon a ddychwelwyd (llai

[21] Gwneir trefniadau bellach mewn tri o gartrefi plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn sgil newid contract.

na 10%) a diffyg data ar y defnydd o wasanaethau eiriolaeth o dan gontract. Ein hamcangyfrif yw nad oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gontractau ar waith gyda darparwyr cofrestredig ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl. Nifer y cartrefi plant a gynhelir gan y sector preifat y gwyddom yn bendant bod ganddynt drefniadau cytundebol â darparwyr eiriolaeth cofrestredig ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl yw 10. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r grwpiau darparwyr mwy, megis: Stepping Stones, Priory, na Priority drefniadau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ar waith ac o ran y rhai eraill (Landsker, Keys, a Bryn Melyn), nid oeddem ni'n gallu cadarnhau a oedd ganddynt gontractau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ym mhob un o'u cartrefi plant. Mae gan Keys gontractau gyda TGP Cymru ar gyfer dau o'u cartrefi plant yng Nghymru, ond nid oeddem yn gallu nodi unrhyw gontractau eraill o'r fath rhwng y darparwyr cartrefi gofal plant mwy hyn a'r ddau ddarparwr cofrestredig yng Nghymru – TGP Cymru a Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol.

**ASTUDIAETH ACHOS**

Roedd Brian, 12 oed, wedi adnabod ei eiriolwr ers dwy flynedd ac roedd hi wedi ei gefnogi ef drwy dri newid mewn lleoliad. Pan ymwelodd ag ef drwy apwyntiad mewn cartref plant mewn lleoliad gwledig anghysbell, dywedwyd wrthi ei fod ef wedi rhedeg i ffwrdd. Gofynnodd yr eiriolwr a oedd y staff yn mynd i chwilio amdano neu ddweud wrth yr heddlu ei fod ar goll a dywedwyd wrthi na fyddent ac y byddai Brian yn ôl yn fuan gan na allai fynd yn bell. Galwodd yr eiriolwr eto, a gwelodd Brian a ddywedodd wrthi pam ei fod yn anhapus yn y cartref. Gyda'i gilydd fe wnaethant gais i'r awdurdod lleol am leoliad arall. Nid oedd gan y cartref plant hwn wasanaeth ymweliadau eiriolaeth preswyl, ond roedd Brian yn ffodus bod yr eiriolwr proffesiynol annibynnol a gomisiynwyd gan ei awdurdod lleol lleoli yn gallu ymweld ag ef.

4.12 Yn rhan o'r gwaith cwmpasu, roeddem yn gallu siarad â nifer o unigolion cyfrifol a rheolwyr cartrefi plant ym mhob rhan o Gymru. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gyfyngedig o'r cysyniad o wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ond nid oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yng Nghymru nac yn wir am yr hawl sydd gan y plant y maent yn gofalu amdanynt i gael cefnogaeth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol. Roeddem ni'n gallu edrych yn fanylach ar un enghraifft o arfer da yn y sector preifat yr ymddengys ei fod yn gweithio'n dda o safbwynt y bobl ifanc sy'n byw yno, yr eiriolwyr sy'n cynnal ymweliadau preswyl, y staff gofal preswyl a'r unigolyn cyfrifol.

4.13 I grynhoi, mae gan bob cartref plant a gynhelir gan awdurdod lleol sy'n darparu gofal amser llawn drefniadau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ar waith.

Amcangyfrifwn fod tua 5-10% o gartrefi plant a ddarperir gan y sector annibynnol hefyd yn contractio gwasanaeth ymweliadau eiriolaeth preswyl annibynnol a bod eiriolwyr preswyl yn ymweld â'r sefydliad unwaith neu ddwywaith y mis er mwyn dod i adnabod y plant a darparu cymorth annibynnol os yw'r plant yn dymuno. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o gartrefi plant yn y sector annibynnol drefniadau ar waith ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ac nid yw llawer o'r darparwyr annibynnol yn ymwybodol o hawl plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a chefnogaeth i leisio eu barn, i fynegi pryder neu i ddatrys problem.

***Trefniadau eraill ar gyfer cael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol***

4.14 Fel y trafodwyd uchod, mae'r arolygon a ddychwelwyd inni yn dangos bod gan rai darparwyr eu trefniadau eu hunain o ran cynghori plant am eu hawl i gael cymorth eiriolaeth, gan gynnwys gwybodaeth am eiriolaeth yn eu canllawiau croeso, mewn sesiynau gweithwyr allweddol ac mewn cyfarfodydd i bobl ifanc. Yn *Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru*[22]*,* bu tîm y Comisiynydd Plant yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc a oedd yn byw yn yr hyn a gyfrifwyd ganddynt yn oddeutu 10% o'r cartrefi plant yng Nghymru (11 cartref) gan siarad â 34 o bobl ifanc. Er bod y Comisiynydd yn dadlau bod gan gartrefi plant le pwysig o ran darparu'r gofal cywir ar gyfer nifer fach o bobl ifanc yng Nghymru, mae hi'n cyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod rhai pobl ifanc yn teimlo'n rhwystredig am nad oes ganddynt ran yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hi'n tynnu sylw at bryderon nad yw pob plentyn yn cael ei holl hawliau i dderbyn gwybodaeth, i gael rhywun i wrando arno ac i ystyried eu safbwyntiau wrth i benderfyniadau pwysig gael eu gwneud am ei ofal. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch ble y bydd yn byw a threfniadau cyswllt gyda'r teulu.

4.15 Canfyddiad arall o adolygiad y Comisiynydd sy'n peri pryder yw mai ychydig iawn o gartrefi oedd â gwybodaeth am Meic neu wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ar eu hysbysfyrddau. Fodd bynnag, yn fwy cadarnhaol, pan godwyd hyn yn ystod y cyfweliad, dywedodd y Comisiynydd ei bod yn ymddangos bod y bobl ifanc yn gwybod sut a phryd y gallent gael gafael ar eiriolwr proffesiynol annibynnol.

[22] Comisiynydd Plant Cymru (2016) Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

4.16 Un o’r meysydd lle mae arfer wedi gwella yw yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal sy’n mynd ar goll o ofal a’r ddarpariaeth o gyfweliad ‘ar goll’, ‘dychwelyd’, neu ‘ôl-drafodaeth’ gyda pherson annibynnol ar ôl iddynt ddychwelyd. Mae'r swyddogaeth yn wahanol i swyddogaeth eiriolwr proffesiynol annibynnol gan fod y person annibynnol yn y fan yma yn ymwneud â lles gorau'r plentyn. Fodd bynnag, gallai’r cyfweliad dychwelyd fod yn adeg hwylus i roi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a sut y gallant fynd ati i gysylltu ag eiriolwr proffesiynol annibynnol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

4.17 Dangosodd ein cyfweliadau gyda Meic a Chomisiynydd Plant Cymru fod nifer fach o blant y gwyddys eu bod nhw’n byw mewn cartrefi plant wedi cysylltu â'u gwasanaethau cynghori ac eirioli – un ai'n uniongyrchol neu drwy drydydd parti. Fodd bynnag, cydnabuwyd na fyddai'r cynghorwyr yn gwybod o reidrwydd ble yr oedd y plentyn neu'r person ifanc yn byw na'i statws cyfreithiol pan yr oedd yn cysylltu â nhw. Fe'n gwnaed yn ymwybodol hefyd gan rai darparwyr annibynnol na fydd yn bosibl i bob plentyn a pherson ifanc gael mynediad i'r rhyngrwyd a’r cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio ffonau clyfar, oherwydd ystyriaethau diogelwch a lles.

4.18 I gloi, mae'n debyg bod y darlun o ran sut mae pobl ifanc yn cael gwybod am eu hawliau a sut i gael gafael ar wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol yn amrywio o gartref i gartref. Mae'n gwbl bosibl nad yw rhai plant a phobl ifanc sy'n byw mewn rhai cartrefi plant a gynhelir gan y sector preifat byth yn cael clywed am yr hawliau hyn. Wrth gwrs, ar yr awdurdod lleol sy’n lleoli (gweithiwr cymdeithasol y plentyn) y mae'r ddyletswydd i gynghori plant, nid ar y darparwr cartref gofal. Y wers fawr a ddysgwn o brofiad ac o’r hyn a ddywed pobl ifanc wrthym yw eu bod nhw’n dymuno cael gwybod am eu hawliau a sut y gallent gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol, yn ôl yr angen, oddi wrth rywun y maent yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo. Mae'r ffaith nad yw’n ymddangos bod y rhai sy'n darparu cartrefi gofal yn y sector preifat yn gwybod am y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, y Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth a hawl plant i gael cymorth eiriolaeth sy’n seiliedig ar faterion yn peri pryder.

## ASTUDIAETH ACHOS

Mae Eric, 13 oed, yn fach am ei oedran. Nid oes ganddo enw am fod yn ymosodol na'n anodd ei reoli. Ffoniodd Eric y prosiect eiriolaeth yn hwyr ar brynhawn Iau (cyn penwythnos gŵyl banc) i siarad â'i eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl er mwyn gofyn iddi am gyngor. Roedd Eric yn pryderu bod aelod o staff wedi ei rwystro'n gorfforol y noson flaenorol. Dywedodd wrth yr eiriolwr fod yr aelod o staff wedi ei lorio, eistedd ar ei gefn, a phwyso ei law i lawr ar ochr ei ben er mwyn ei hoelio ef i lawr. Dywedodd Eric ei fod wedi rhoi gwybod i'r Swyddog â Gofal am y digwyddiad fore dydd Iau ond nid oedd y Swyddog â Gofal yn dymuno gwrando a dywedodd y gallai fynd i weld y meddyg teulu pe byddai'n dymuno. Roedd Eric yn pryderu bod yr aelod o staff a loriodd ef ar ddyletswydd eto y dydd Gwener hwnnw ac nad oedd y Swyddog â Gofal wedi siarad ag ef. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw beth wedi'i wneud ac roedd ychydig yn ofidus ac yn ofnus. Trefnodd yr eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl i ymweld ag ef o fewn yr awr.

Pan gyrhaeddodd yr eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl, gwelodd fod gan Eric gleisiau ar ei wyneb, roedd ganddo ddwy lygad du, crafiadau ar ei wyneb a'i gorff a chleisiau ar ei gefn a'i asennau. Dywedodd y bobl ifanc eraill yn yr uned fod yr aelod hwn o staff wedi eu taro nhw hefyd ar wahanol adegau.

Gwnaeth yr eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl atgyfeiriad amddiffyn plant ac fe drefnodd y gweithiwr cymdeithasol brys archwiliad gan bediatregydd y noson honno. Daeth yr archwiliad meddygol i'r casgliad bod y cleisiau ar lygaid Eric wedi eu hachosi gan bwysau ar ochrau ei ben pan wthiwyd ef i'r llawr. Cafodd yr aelod o staff ei wahardd dros dro a chynhaliodd yr awdurdod lleol gyfarfod strategaeth brys. Symudwyd Eric i gartref maeth ar unwaith.

***Pa mor dda y mae'r trefniadau presennol yn gweithio yn ymarferol?***

4.19 Yn rhan o'r broses gwmpasu, fe wnaethom ni geisio deall sut mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant yn cael gwybod am eu hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a sut y gallant gael cymorth o'r fath a sut y gellid gwella hyn. Dangosodd ymgynghoriadau â dros 50 o bobl ifanc mewn gofal yn rhan o'r astudiaeth gwmpasu hon fod rhai pobl ifanc yn gwybod am eiriolaeth ond nad yw rhai eraill[23]. Nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi clywed am y Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth. Dywedodd y bobl ifanc hynny a oedd yn gwybod am eiriolaeth eu bod wedi cael gwybod o nifer o wahanol leoedd:

*Doeddwn i ddim yn gwybod am eiriolaeth yn [enw cartref plant] nes i un o’r bechgyn eraill ddweud wrthyf, pan ddaeth yr eiriolwr yma.*

*Cefais wybod am eiriolaeth oherwydd eu bod nhw eisiau fy symud i a doeddwn i ddim eisiau mynd a dyna pryd y cefais wybod am y posibilrwydd o gael eiriolwr.*

*Cefais wybod tua 2 flynedd yn ôl mewn lleoliad preswyl arall. ’Chefais i ddim gwybod am eiriolaeth pan ddeuthum i [enw cartref plant] yn gyntaf. Dim ond pan ymwelodd yr eiriolwr â [enw cartref plant] y cefais wybod am eiriolaeth.*

*’Chefais i ddim gwybod tan yr oeddwn eisiau cwyno. Doeddwn i ddim yn gwybod am eiriolaeth ynghynt ac roeddwn i wedi bod mewn gofal ers 4 blynedd cyn i mi gael clywed.*

4.20 Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc a oedd yn gwybod am eiriolaeth wedi cael gwybod gan eu gweithwyr allweddol yn y cartref, eu gofalwyr maeth, neu eu gweithwyr cymdeithasol. Roedd rhai ohonynt yn cofio poster yn rhywle. Roedd ychydig o bobl ifanc wedi clywed gan athro ac roedd o leiaf dau berson ifanc wedi clywed am eiriolaeth yn gyntaf mewn digwyddiad gweithgarwch ‘Comisiynwyr Ifanc’ a gynhaliwyd gan y 4C. Pan ofynnwyd iddynt gan bwy yr hoffent glywed amdani, yr ateb mwyaf cyffredin oedd eu bod nhw’n dymuno clywed am eiriolaeth gan eu gweithiwr allweddol neu *‘aelod o staff y gellir ymddiried ynddo’* yn y cartref, neu ofalwr maeth; eu hathro neu eu gweithiwr cymdeithasol. Y neges glir oedd bod pobl ifanc yn awyddus iawn i glywed am eiriolaeth – beth ydyw a sut y gallant gael gafael arni, gan bobl y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.

[23] Roedd 51 o'r 52 o blant a phobl ifanc mewn gofal – roedd tua 30 ohonynt yn byw, neu wedi byw, yng nghartrefi plant y sector preifat yn ddiweddar ar adeg yr ymgynghoriad. Roedd y person ifanc arall wedi gadael gofal yn ddiweddar.

4.21 Caiff pwysigrwydd swyddogaeth y gweithiwr allweddol i blant sy'n byw mewn gofal preswyl ei adleisio yn *Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn gofal preswyl*[24]. Roedd cefnogaeth gan weithwyr allweddol yn bwysig iawn i'r bobl ifanc a gyfwelwyd gan dîm y Comisiynydd Plant. Roeddent o'r farn bod eu gweithwyr allweddol yn 'eu cefnogi' ac nad oeddent yn eu siomi, eu bod yn eu hannog i wneud newidiadau i'w bywydau a/neu eu bod yn deall yr hyn yr oedd pobl ifanc yn mynd drwyddo, ac yn eu gwthio i ymdrechu'n well. Roedd y bobl ifanc yn gweld eu gweithwyr allweddol fel gweithwyr unigryw yn y ffordd hon o gymharu ag unrhyw weithwyr eraill yr oeddent yn gwybod amdanynt, gan fod ganddynt yr amser a'r cyfle i weithio drwy rywbeth gyda'i gilydd. Roedd y berthynas â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ychydig yn fwy cymysg o safbwynt pobl ifanc yn astudiaeth y Comisiynydd, gyda rhai profiadau cadarnhaol ond peth rhwystredigaeth hefyd ynghylch peidio â chlywed yn amserol gan weithwyr cymdeithasol ynglŷn â phenderfyniadau pwysig.

4.22 Dywedodd y bobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn rhan o'r gwaith cwmpasu fod y ffyrdd gorau o roi gwybod i blant eu bod nhw'n gallu siarad â rhywun annibynnol yn cynnwys:

- Posteri
- Sesiynau gwaith allweddol
- Gofalwyr maeth
- Cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd y cartref
- Yn y canllawiau croeso yn y cartref
- Dylai gweithiwr cymdeithasol fod wedi dweud wrthyf cyn imi gyrraedd
- Siarad yn agored am eiriolaeth mewn cyfarfodydd pobl ifanc
- Cylchlythyrau
- Ysgolion
- Y rhyngrwyd
- Posteri
- Siarad – *'mae siarad am y peth a chael gwybod yn allweddol i wybod am eich hawliau'*

4.23 Roedd yr holl sylwadau a gawsom gan bobl ifanc a oedd wedi derbyn cymorth eiriolaeth proffesiynol annibynnol yn gadarnhaol. Dywedodd un person ifanc a gafodd gymorth eiriolaeth ar ôl iddi gael ei lleoli mewn hostel neu gartref plant anaddas heb ei gofrestru pan oedd yn 17 oed fod eiriolaeth wedi bod yn 'achubwr bywyd' yn llythrennol. Roedd hi wedi bod mewn gofal ers peth amser ond dim ond gan ei Chynghorydd Personol yn y Tîm Gadael Gofal y clywodd hi am wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol. Gyda chymorth eiriolwr proffesiynol annibynnol, cafodd ei

[24] Comisiynydd Plant Cymru (2016) Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

symud i leoliad mwy addas. Cyflwynir sylwadau mwy cadarnhaol isod – yn enwedig yn gysylltiedig â'r model o ymweliadau eiriolaeth preswyl.

4.24 Cawsom sylwadau mwy beirniadol am wasanaethau eiriolaeth annibynnol gan reolwr cartref plant a rhanddeiliad arall y mae ei dîm yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl. Yn y ddau achos, rhoddwyd enghreifftiau o eiriolwr yn ymwneud â pherson ifanc, ond ei fod yn annibynadwy ac nid oedd yn gwneud yr hyn a addawodd i'r person ifanc. Roedd rhywfaint o feirniadaeth hefyd ynghylch ffyrdd y mae rhai gweithwyr proffesiynol yn esbonio beth yw eiriolaeth i bobl ifanc, gan roi enghreifftiau o Swyddog Adolygu Annibynnol yn sôn am eiriolaeth yn ystod Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal *'er mwyn iddi allu ticio blwch – heb fod yn rhagweithiol. Yn ein profiad ni, ceir rhai Swyddogion Adolygu Annibynnol a gweithwyr cymdeithasol nad ydynt yn deall yn iawn beth yw eiriolaeth, ac weithiau, nid ydyn nhw eisiau i'r person ifanc gael eiriolwr annibynnol oherwydd eu bod nhw'n gwybod y bydd hynny'n golygu rhagor o waith iddyn nhw. Mae'r union fodd y mae person ifanc yn cael clywed am eiriolaeth yn bwysig. Mae'n gallu bod yn ddryslyd iawn i berson ifanc'.*

4.25 Cododd yr ymatebydd hwn bryderon hefyd ynghylch a allai'r ddau ddarparwr gwasanaethau eirioli presennol yng Nghymru fodloni'r galw cynyddol sy'n codi yn sgil y Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth gan gyfeirio at restrau aros a weithredir gan ddarparwyr gwasanaethau mewn rhai ardaloedd. Mynegwyd pryderon hefyd am y dryswch yn y system ynghylch pa blant 'o'r tu allan i'r sir' oedd â hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol yng Nghymru – er enghraifft, plant a leolwyd mewn gofal preswyl a ddarperir yn annibynnol yng Nghymru gan awdurdodau lleol yn Lloegr, a oedd yn golygu bod sefyllfaoedd annymunol mewn cartrefi plant unigol lle roedd y farn bod rhai plant yn gymwys ac eraill heb fod yn gymwys. Nododd yr ymatebydd nad oedd hyn yn dda oherwydd y gallai byw ymhell oddi cartref ac i ffwrdd o'r awdurdod lleol sydd wedi eich lleoli olygu bod pobl ifanc yn teimlo eu bod nhw mewn 'lle *unig'* iawn. Awgrymodd hefyd y gallai gweithwyr allweddol fod yn dda iawn am drefnu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ar gyfer person ifanc yn eu gofal, ond os nad ydynt yn cytuno â'r cwrs gweithredu hwnnw, *'nid yw'n mynd i unman'.* Mae'r sylwadau hyn yn ein hatgoffa bod yr union fodd y mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn sgyrsiau am wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol yn faes pwysig i'w ystyried – a bod angen rhagor o waith i ddarbwyllo'r rhai hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, o'i manteision.

4.26 Hefyd, nododd trafodaethau â rhanddeiliaid lefel o ddryswch ynghylch y 'Cynnig Rhagweithiol' yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant sy'n derbyn gofal. Ers i Gomisiynydd Plant Cymru argymell yn 2012 y dylai awdurdodau lleol wneud Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc sy'n ymuno â'r system gofal plant statudol, mae'r term bellach yn cael ei

ddefnyddio yn Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn gwybodaeth ar gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal cymdeithasol fod yn fwy rhagweithiol o ran cynnig y cyfle i'r defnyddwyr gwasanaethau siarad Cymraeg [25]. Dywedodd nifer o ddarparwyr cartrefi plant annibynnol yng Nghymru wrthym eu bod nhw'n gwybod ac yn deall goblygiadau'r Cynnig Rhagweithiol yn gysylltiedig â'r Gymraeg, ond nid felly o ran y Cynnig Rhagweithiol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol.

Ymweliadau Eiriolaeth Preswyl

4.27 Bu'n bosibl i ni ymgynghori â 13 o bobl ifanc a oedd yn byw mewn gofal preswyl a oedd wedi defnyddio eiriolwr proffesiynol annibynnol, neu'n dal i wneud hynny. Roedd y bobl ifanc hyn o chwe chartref plant gwahanol, a ddarperir gan bum darparwr gwahanol. Roedd y rhan fwyaf ohonynt â phrofiadau diweddar neu gyfredol o fyw mewn cartref lle'r oedd trefniadau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ar waith. Fe wnaethom ofyn sut yr oeddent yn credu bod y trefniadau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl yn gweithio'n ymarferol. Mae'r blwch isod yn nodi eu sylwadau cadarnhaol iawn. Cynhaliwyd cyfweliadau gennym hefyd â thri eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl a oedd, rhyngddynt, yn ymweld â 15 o gartrefi plant yn rheolaidd. Ym mhob achos mae'r eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl yn ymweld â'r cartref plant unwaith y mis ac wedi bod yn gwneud hynny ers nifer o flynyddoedd. Roedd y bobl ifanc, y staff a'r eiriolwr i gyd yn sôn yn gadarnhaol am y trefniant. Roeddent yn cydnabod y gall ymgysylltu â'r bobl ifanc fod yn anodd yn y dechrau, ond dros gyfnod o amser, mewn cartrefi â phoblogaethau cymharol sefydlog – roedd yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl wedi llwyddo i feithrin perthynas â'r bobl ifanc a'r staff.

4.28 Mewn sefyllfaoedd pan mae preswylwyr yn cael eu lleoli o Loegr neu mewn rhannau cymharol bell o Gymru a'r person ifanc yn dymuno cael cymorth eiriolaeth gyda mater sy'n gysylltiedig â'i Gynllun Gofal ac ardal y cartref – mae'n fwyaf tebygol y bydd eiriolwyr sy'n cynnal ymweliadau preswyl yn cysylltu â gweithiwr cymdeithasol y person ifanc ac yn trafod y posibilrwydd o ddarparu eiriolwr lleol neu gynnig darparu'r cymorth eiriolaeth yn uniongyrchol – gan ddibynnu ar yr hyn a ffefrir gan y plentyn neu'r person ifanc. Yn yr achos olaf, bydd y darparwr ymweliadau eiriolaeth preswyl

[25] Mwy na geiriau – Gwireddu'r 'Cynnig Rhagweithiol' Pecyn Gwybodaeth - Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

yn trafod ffi am y cymorth hefyd. Os yw'r mater a godir gan y person ifanc yn ymwneud yn fwy â chynnal y cartref a pherthynas â'r staff er enghraifft, bydd yr eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl yn trafod y mater ym mha ffordd bynnag y dymuna'r person ifanc o fewn gallu'r contract presennol. Mynegodd y tri eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl fod y trefniadau hyn yn gweithio'n eithaf da a bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol sy'n lleoli yn barod i gydweithredu er mwyn cefnogi dewis y person ifanc. Mynegodd rheolwyr gweithredol mewn awdurdodau lleol hefyd fod y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a TGP Cymru yn fedrus ac yn brofiadol o ran trefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gyfer person ifanc sydd wedi ei leoli y tu allan i'r ardal – un ai drwy ddod o hyd i eiriolwr proffesiynol annibynnol yn yr ardal y mae'r plentyn yn byw ynddi (mae gan Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol wasanaethau eiriolaeth yn Lloegr yn ogystal â Chymru) neu drwy drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol o ardal y cartref i gynnal ymweliadau.

4.29 Dywedodd un awdurdod lleol wrthym eu bod yn ystyried ymestyn eu contract eiriolaeth proffesiynol annibynnol rhanbarthol i gynnwys cartref plant preifat yn yr ardal leol lle bo'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yn blant lleol a leolir gan y gwesteiwr yn ogystal ag ymweliadau eiriolaeth preswyl ar gyfer eu cartref plant ei hun.

**Sylwadau gan bobl ifanc ynghylch Ymweliadau Eiriolaeth Preswyl**

*‘Cefais wybod am eiriolaeth tua 2 flynedd yn ôl mewn lleoliad preswyl arall. ’Chefais i ddim gwybod amdani pan ddeuthum i [enw cartref plant] yn gyntaf. ’Wnes i ddim clywed am y peth nes y daeth yr eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau i'r cartref. Gall eiriolaeth eich helpu chi i ddatrys problem, fe fyddan nhw’n siarad ar eich rhan ac yn sicrhau bod y gweithwyr cymorth yn gwneud penderfyniadau drosof yn unol â'm hawliau.’*

*‘Rwy’n meddwl y dylai fod yn y llyfr croeso pan yr ydych chi’n dod i [enw cartref plant]. Rwy’n meddwl bod yr hyn sy'n digwydd nawr gydag ymweliadau gan [enw’r eiriolwr] yn dda. Mae eiriolaeth wedi sicrhau bod pethau ar waith ac wedi fy helpu i ddweud wrth y gwasanaethau cymdeithasol i ble yr hoffwn symud iddo hefyd. Mae'r cyfan wedi gweithio a byddaf yn gadael i fynd i fyw yno yn fuan.’*

*‘Fe fyddwn i'n dweud wrth unrhyw un i fod ag eiriolwr gan fy mod i’n credu y dylai pob person ifanc eu cael nhw gan eu bod nhw’n gwneud i bethau ddigwydd ac fe wnaethon nhw i weithwyr proffesiynol eraill fy nghymryd i o ddifri.’*

*‘Mae eiriolwyr yn dadlau o’ch plaid chi. Rwy'n credu y dylai pob person ifanc gwrdd ag eiriolwr er mwyn gwybod bod ganddyn nhw’r dewis hwnnw, ac fe ddylen nhw fynd i’r cyfarfodydd.’*

*‘Mae eiriolwyr yn wych ac fe wnaethon nhw herio’n daer y rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau gwael drosof fi........roeddwn i'n ymddiried ynddi yn fawr iawn.’*

*‘Roedd yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau yn wych ac fe gysylltodd ef â'm gweithiwr cymdeithasol a chanfod pwy sy'n darparu eiriolaeth yn fy ardal ac mae gennyf fi eiriolwr yn awr.’*

4.30 Casglwyd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r model ymweliadau eiriolaeth preswyl gan reolwr cartref plant drwy gyfrwng yr arolwg. Roeddent i gyd yn gadarnhaol iawn ynghylch sut yr oedd y trefniadau'n gweithio, ond gwnaed yr awgrymiadau canlynol ganddynt ar gyfer gwelliannau:

> *‘Sicrhau bod pob darpariaeth breswyl yn nodi'n glir sut y caiff gwasanaethau eirioli annibynnol eu trefnu yn ei datganiad o ddiben a chael AGC i’w gwneud yn rhywbeth y maent yn ei gwirio cyn caniatáu rhywun i gofrestru. Ei chynnwys yn yr adroddiadau blynyddol’* (Darparwr annibynnol)

*'Ad hoc yw'r apwyntiadau yn aml – byddai rhagor o rybudd ar gyfer ymweliadau yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc ar gael ac yn barod.'* (Darparwr annibynnol).

*'Gwirio pryd y mae arolygiadau'n cael eu cynnal.'* (Darparwr annibynnol)

*'Ymweliadau yn ystod y penwythnos*.' (Awdurdod lleol – Gofal seibiant/arhosiad byr)

*'Rhagor o fformatau darluniadol ac sy'n berthnasol i bobl ifanc ag anableddau.'* (Awdurdod lleol – Gofal seibiant/arhosiad byr)

*'Taflenni yn y cartref, hefyd rydym ni'n trefnu i bobl ifanc* gael eu cyflwyno.' (Darparwr preifat heb unrhyw eiriolaeth ar waith)

*'Gellid gwella'r trefniant presennol yn sylweddol pe byddai pob eiriolwr* [sy'n cynnal ymweliadau preswyl] *yn gallu cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn amlach gyda phob person ifanc a'i weithwyr allweddol.'* (Awdurdod lleol – Gofal seibiant/arhosiad byr)

4.31 I grynhoi, o'r wybodaeth sydd ar gael, ymddengys fod y model ymweliadau eiriolaeth preswyl yn gweithio'n dda mewn cyfran fach o gartrefi plant yng Nghymru er bod angen addasu'r model yn ofalus a'i wella gan ddibynnu ar natur y cartref gofal ac anghenion yn ogystal â dymuniadau'r bobl ifanc sy'n byw yno. Mae eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl mewn sefyllfa dda i roi sylwadau i reolwyr ac AGC ynghylch y themâu mwyaf cyffredin sy'n codi o'i ymweliadau arferol - sef gwella ymatebolrwydd ac ansawdd gofal heb dorri cyfrinachedd. Fodd bynnag, nododd yr eiriolwyr sy'n cynnal ymweliadau preswyl a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon na ofynnir iddynt siarad â'r arolygwyr yn aml pan fo'r cartrefi yn cael eu harolygu, a'i bod hi, weithiau, yn anodd cael gafael ar reolwyr cartref ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd.

**ASTUDIAETH ACHOS**

Lleolwyd Linda, 14 oed, mewn uned ddiogel a oedd dros 200 milltir o’i hardal leol. Roedd hi wedi bod yno ers pedair wythnos ac roedd hi'n colli ei rhieni a'i theulu. Bechgyn oedd y rhan fwyaf o'r preswylwyr eraill, ac roeddent yn ei phryfocio hi oherwydd ei bod hi’n Saesnes.

Nid oedd rhieni Linda wedi gallu ymweld â hi gan nad oeddent yn gallu fforddio'r costau teithio. Roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi dweud y byddai'r awdurdod lleol yn ad-dalu unrhyw gostau teithio, ond ni allai rhieni Linda fforddio pris tocynnau trên ymlaen llaw. Nid oedd Linda'n gallu cysylltu â'i gweithiwr cymdeithasol gan fod ei gweithiwr cymdeithasol ar absenoldeb salwch. Nid oedd neb o'i hawdurdod lleoli wedi ymweld â Linda, nid oedd yn gwybod beth oedd yn digwydd, beth oedd y cynlluniau na phryd y byddai hi'n gallu mynd adref. Dywedodd Linda bryd hynny ei bod hi’n teimlo'n ofnus iawn ac yn drist iawn. Teimlai nad oedd neb yn gofalu amdani a’i bod wedi ei hanghofio.

Gwelodd Linda wybodaeth am yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl ar yr hysbysfwrdd, a gwelodd wybodaeth am ei hawliau hefyd. Dywedodd y bobl ifanc eraill yn yr uned wrth Linda fod yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl yn glên ac yn annibynnol, a’i bod hi’n rhwydd siarad ag ef. Gofynnodd Linda i’r eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl am gymorth. Siaradodd yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl â staff yr uned gan ofyn am fanylion yr awdurdod lleol a oedd yn lleoli Linda. Yna, canfu'r eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl pwy oedd y darparwr eiriolaeth annibynnol a gontractiwyd gan yr awdurdod hwnnw a defnyddiodd eu cymorth i gael hawliau teithio a threuliau fel y gallai rhieni Linda a'i chwaer fach ymweld â hi. Roedd yr eiriolwr proffesiynol annibynnol o'r awdurdod lleoli hefyd yn gallu sicrhau y gallai Linda weld ei chynllun gofal a deall y rhesymau pam ei bod hi yn yr uned, ac yn bwysicach fyth, am faint o amser yn rhagor y gallai hi ddisgwyl aros yno.

Cytunwyd y byddai'r eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl yn helpu Linda i baratoi ar gyfer ei chyfarfodydd adolygu cynlluniau, gan ei chefnogi hi, tra'r oedd hi yn yr uned. (Negodwyd trefniant i dalu am y gwasanaeth hwn rhwng darparwr eiriolaeth yr awdurdod lleol a'r darparwr ymweliadau eiriolaeth preswyl).

Hefyd, roedd yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau preswyl yn gallu gweithio gyda gweithiwr allweddol Linda yn yr uned i drefnu cyfarfod adferol gyda'r bobl ifanc eraill i siarad am y pryfocio a oedd yn digalonni Linda. Dywedodd y preswylwyr eraill nad oeddent yn sylweddoli bod hynny’n peri cymaint o ofid i Linda ac roeddynt yn ymddiheuro gan ddweud eu bod nhw wedi golygu hynny mewn ffordd gyfeillgar a chynhwysol. Parhaodd rhieni a chwaer Linda i ymweld â Linda bob pythefnos. Dywedodd Linda wrth yr eiriolwr a oedd yn cynnal ymweliadau ei bod hi'n teimlo'n hapusach ac yn ddiogelach yn yr uned a bod aros yno wedi ei helpu i ddatrys ei phroblemau a bod hynny, mewn gwirionedd, wedi achub ei bywyd.

**Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol sy'n lleoli i roi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc o'i hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a sut i gael gafael ar wasanaeth**

4.32 Awgrymodd ein cyfweliadau â rhanddeiliaid, er ei bod hi'n bosibl bod gan y gweithiwr cymdeithasol bob bwriad o roi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc am ei hawliau i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol pan mae'n symud i gartref plant penodol, y gwir amdani yw ei bod hi'n bosibl bod gormod yn digwydd i'r gweithiwr cymdeithasol a'r person ifanc gofio'r wybodaeth. Heb i'r rhai sydd yn y cartref plant gael eu hyfforddi a'u cynghori ynghylch eiriolaeth, er mwyn iddynt allu gwneud gwaith dilynol gyda'r plentyn yn nes ymlaen – gall y cyfan fynd ar goll. Yn ogystal â'r angen i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff gofal plant preswyl, daethom i'r casgliad hefyd y dylid nodi'r adegau pwysicaf i'r plant gael gwybod am eu hawl i gael cymorth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol a rhoi gwybod iddynt sut i fynd ati i gael un.

4.33 Mae angen cryfhau ymhellach y gweithdrefnau statudol sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau bod cyfleoedd niferus yn rhan o'r system er mwyn 'gwirio ac ychwanegu at' ymwybyddiaeth a sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybod am eu hawliau a pha gymorth sydd ar gael iddynt. Mae'n debyg nad Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yw'r cyfrwng cywir yma oherwydd bod y mwyafrif helaeth o'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi plant sy'n eiddo i'r sector preifat eisoes wedi bod mewn gofal ers peth amser. Mae Adolygiadau statudol o blant sy'n derbyn gofal eisoes wedi eu nodi yn y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol fel pwynt allweddol pan ddylai Swyddogion Adolygu Annibynnol wirio bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymwybodol o'i hawliau i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol. O ran plant sy'n byw mewn cartrefi plant, mae Adolygiad Diwedd y Lleoliad (plant sy'n derbyn gofal) yn gyfle arbennig o amserol i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael gwybod am ei hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol, gan y dylai hyn ddigwydd o fewn saith diwrnod ar ôl i'r plentyn gael ei leoli yn y cartref.

4.34 Mewn ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i blant a phobl ifanc sydd wedi arfer derbyn gofal a'u galwad i Lywodraeth Cymru gryfhau Adolygiadau Diwedd y Lleoliad (plant sy'n derbyn gofal), mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr angen i gryfhau Cod Ymarfer Rhan 6 i gynnwys canllawiau penodol ar y camau i'w dilyn pan gynigir symud plentyn i leoliad newydd. Mae cyfle yma os yw Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau i gynnwys cyfarwyddiadau i sicrhau bod plant yn cael gwybod am eu hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a sut i gael gafael ar eiriolwr - y cwbl yn ystod Adolygiadau Diwedd y Lleoliad (plant sy'n derbyn gofal).

4.35 Yn yr un modd, gallai canllawiau sicrhau, yn ystod pob cyfweliad ‘ar goll’ neu ‘ddychwelyd’ (ar gyfer pobl ifanc mewn gofal sy’n mynd ar goll), fod y person ifanc yn cael gwybod am ei hawliau ac y rhoddir esboniad iddo ynghylch sut i gael cymorth a chefnogaeth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol.

**Lleoliadau plant sy'n derbyn gofal mewn cartrefi na chaiff ei rheoleiddio**

4.36 Hefyd, datgelodd yr astudiaeth gwmpasu lefel o bryder gan randdeiliaid yn y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r trydydd sector ynglŷn â natur ac ansawdd peth o'r gofal preswyl a ddarperir i'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed ac sydd ag anghenion mawr gan y sector preifat. Ym mhob achos, dywedwyd wrthym fod pob un o'r pryderon hyn wedi eu hadrodd yn brydlon i AGC. Rydym eisoes wedi nodi bod y 4C yn gweithio gyda darparwyr i wella ansawdd gyda'i Fframwaith Gofal Preswyl newydd ac mae AGC yn gweithio i ymgorffori trefniadau cofrestru ac arolygu newydd ar gyfer cartrefi gofal yng Nghymru, a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio ar ddatblygu gweithlu cymwys a medrus. Nododd yr astudiaeth gwmpasu bryderon penodol o ran lleoli plant sy'n derbyn gofal mewn llety heb ei gofrestru oherwydd y pwysau ar leoliadau sydd ar gael a bwlch yn y rheoliadau sy'n caniatáu i ddarparwyr wahaniaethu rhwng yr angen am ‘ofal’ a'r angen am ‘gymorth’. Clywodd y grŵp cynghori yn uniongyrchol am brofiad menyw ifanc a leolwyd mewn amgylchedd hostel hynod o anaddas yn 17 oed. Roedd hi yn ofnus oherwydd ei bod hi’n byw ochr yn ochr â mân droseddwyr a gwerthwyr cyffuriau. Mae straeon tebyg eraill a adroddwyd gan bobl ifanc 16 ac 17 oed a leolwyd mewn llety na chaiff eu rheoleiddio yng Nghymru a Lloegr wedi eu darlledu yn y cyfryngau[26].

[26] Er enghraifft: Britain’s Hidden Children’s Homes (BBC Newsnight, Mai 2019)

# CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

5.1 Mae'n ddigon posibl na fydd plant mewn cartrefi plant a gynhelir gan y sector preifat yn gwybod am eu hawliau i gael cymorth eiriolaeth annibynnol ac na fydd plant a leolir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gwybod am hawl plentyn i gael Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth. O'n hymholiadau ni, amcangyfrifwn fod gan 5-10% o gartrefi plant a gynhelir gan y sector preifat drefniadau ymweliadau eiriolaeth preswyl ar waith. Mae nifer o enghreifftiau o gartrefi plant annibynnol yn contractio TGP Cymru neu Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol i ddarparu ymweliadau eiriolaeth preswyl, ond nid yw'r arfer hwn yn eang yn ôl ein hamcangyfrifon ni.

5.2 Mae darparwyr eiriolaeth yn ffafrio ymweliadau eiriolaeth preswyl fel model ar gyfer yr holl gartrefi plant yng Nghymru, gan gynnwys y rhai hynny sy'n darparu gofal seibiant/arhosiad byr i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, awtistiaeth a/neu anableddau corfforol. Fodd bynnag, 'gwaith sy'n mynd rhagddo' yw'r model a dylid ei werthuso a'i ddatblygu ymhellach o dan y trefniadau rheoleiddio newydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth plant yng Nghymru.

5.3 Noda'r ymarfer cwmpasu nad yw'r cysyniad o wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a hawliau plant sy'n derbyn gofal i gael gafael ar gymorth sy'n seiliedig ar broblemau yn hysbys nac yn cael eu deall yn eang gan berchenogion cartrefi plant a ddarperir gan y sector preifat na'r rhai sy'n gweithio ynddynt. Gwyddom fod pobl ifanc yn cael gafael ar wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol yn aml drwy oedolyn y maent yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo. Mae'n dilyn felly bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gweithwyr allweddol plant a rheolwyr cartrefi plant yn gwybod am wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ac yn ei deall yn ogystal â hawliau plant a phobl ifanc sydd dan eu gofal i gael gafael ar gymorth o'r fath.

5.4 Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth, fel y mae ar hyn o bryd, yn canolbwyntio ymdrechion awdurdodau lleol ar sicrhau bod plant sy'n ymuno â'r system ofal yn derbyn 'Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth'. Mae'r astudiaeth gwmpasu'n awgrymu bod angen i'r awdurdod lleol sy'n lleoli wneud mwy yn ystod yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd dilynol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr holl wybodaeth a'u bod nhw'n gwybod am y cymorth eiriolaeth sy'n seiliedig ar broblemau sydd ar gael iddynt. Heb i weithwyr cymdeithasol na Swyddogion Adolygu Annibynnol gael y sgyrsiau rheolaidd hynny gyda'r bobl ifanc ac i'r rhai sy'n gweithio yn y cartrefi plant gael eu hyfforddi a'u bod yn gallu gwneud gwaith dilynol gyda'r person ifanc – gall y cyfan fynd ar goll.

5.5 Mae angen gweithredu er mwyn annog a chynorthwyo'r sector preifat i sefydlu trefniadau ar gyfer ymweliadau eiriolaeth preswyl ym mhob un o'u cartrefi gofal plant ac annog a chefnogi awdurdodau lleol (sy'n lleoli) i gryfhau eu gweithdrefnau o dan Ran 10 o God Ymarfer ar Eiriolaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Cyflwynir nifer o argymhellion i Llywodraeth Cymru eu hystyried ynghylch y ddau faes yma.

**A. Llunio a gweithredu strategaeth gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth a datblygu dealltwriaeth am wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol a gofynion (o dan Ran 10 y Ddeddf) yn y sector gofal plant preswyl preifat.**

Gellid comisiynu ymgyrch â therfyn amser i hysbysu pobl ifanc a'r rheini o amgylch pobl ifanc mewn gofal preswyl (staff, perchnogion, therapyddion, athrawon, cydlynwyr addysg ac iechyd plant sy'n derbyn gofal, gweithwyr cymdeithasol, Swyddogion Adolygu Annibynnol ac ati) o hawl pobl ifanc i gael cymorth annibynnol – o'r gwahanol wasanaethau a'r mathau o gymorth sydd ar gael gan gynnwys y gwasanaethau a ddarperir gan Meic, TGP Cymru, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, y Comisiynydd Plant a Voices from Care. Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc (Meic) a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru yn meddu ar arbenigedd mewn darparu gwybodaeth ac addysg ddigidol i bobl ifanc. Mae llawer i'w ddysgu gan arbenigwyr yn y maes o ran y ffordd orau o dargedu gwybodaeth ynghylch grwpiau penodol o fewn dull cyffredinol.

Gallai'r ymgyrch wneud defnydd buddiol o gyfleoedd i fynd i gyflwyniadau mewn nifer o fforymau a rhwydweithiau gweithredol sy'n cynnwys darparwyr cartrefi gofal plant y sector preifat, gan wneud cyflwyniadau ynddynt. Er enghraifft, fforymau a gynhaliwyd gan y 4C, fforwm a gynhaliwyd gan ddarparwyr cartrefi gofal plant y sector preifat yn y gogledd, a fforwm perthnasol a gynhelir gan Gwent Missing Hub Forum.

Dylid gwahaniaethu rhwng negeseuon ar yr hyn a ddisgrifir fel y Cynnig Rhagweithiol (o Eiriolaeth) a'r Cynnig Rhagweithiol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ym maes gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

**B. Diwygio trefniadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol i wneud darparu ymweliadau eiriolaeth preswyl (gan ddarparwr eiriolaeth cofrestredig dan gontract) yn ofynnol ym mhob cartref er mwyn cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.**

Bydd hyn yn gofyn am newidiadau mewn rheoliadau a fydd yn cymryd peth amser i'w cyflwyno. Fel mesur dros dro, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn y fframwaith arolygu cyfredol ar gyfer cartrefi plant cofrestredig, ofyniad i asesu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod plant sy'n byw yn y cartref yn gwybod am eu hawl i gael ymweliadau preswyl gan eiriolwr annibynnol a sut i fynd ati i gael cymorth eiriolaeth sy'n seiliedig ar broblemau. Os oes un yn bodoli, dylid cymryd tystiolaeth o'r gwasanaeth ymweliadau eiriolaeth preswyl fel mater o drefn yn ogystal ag oddi wrth blant a phobl ifanc preswyl.

C. **Ystyried cynnwys y gweithgareddau canlynol ym mlaenraglen waith grŵp gorchwyl a gorffen Grŵp Cynghori'r Gweinidog ynghylch Gofal Preswyl i Blant**:

- Hyfforddiant parhaus a chodi ymwybyddiaeth am eiriolaeth a hawliau plant o dan y rhaglen gofal plant preswyl – i'w darparu mewn partneriaeth â'r darparwyr eiriolaeth cofrestredig.

- Cysylltu darparwyr eiriolaeth cofrestredig â'r datblygiadau cyfredol er mwyn meithrin gallu yn y sector gofal plant preswyl.

- Camau gweithredu eraill (fel y'u pennwyd) a fyddai'n annog ac yn cynorthwyo darparwyr y sector preifat i sefydlu trefniadau ymweliadau eiriolaeth preswyl yn eu cartrefi plant.

- Cadw golwg ar sut mae trefniadau o'r fath yn gweithio'n ymarferol - gan gynnwys y posteri sy'n hysbysebu'r gwasanaeth sydd ar gael, y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau a bodlonrwydd pobl ifanc gyda'r gwasanaeth ymweliadau eiriolaeth preswyl a'r ymatebion y mae pobl ifanc yn eu cael gan benderfynwyr.

Ch. **Ystyried cynnwys y gweithgareddau canlynol ym mlaenraglen waith grŵp gorchwyl a gorffen Grŵp Cynghori'r Gweinidog ynghylch y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth/eiriolaeth i blant**:

- Datblygu manyleb arferion gorau ar gyfer 'Ymweliadau Eiriolaeth Preswyl' mewn cartrefi plant.

- Annog y broses o ddatblygu trefniadau dwyochrog rhwng darparwyr eiriolaeth cofrestredig ar gyfer defnyddio eiriolwyr proffesiynol

annibynnol a rhwng yr awdurdodau sy'n lleoli a'r awdurdodau sy'n cynnal, o ran costau.

- Sefydlu trefniadau i fonitro'r nifer sy'n manteisio ar eiriolaeth sy'n seiliedig ar broblemau a'r canlyniadau yn ôl math y lleoliad.

- Cryfhau gweithdrefnau a chanllawiau'r awdurdod lleol (sy'n lleoli) er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc a leolir mewn cartrefi plant annibynnol yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am eu hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ac yn cael manylion ynghylch sut i gysylltu ag eiriolwr. Er enghraifft, yn ystod Adolygiadau Diwedd y Lleoliad (plant sy'n derbyn gofal) y dylid eu cynnal o fewn 7 diwrnod ar ôl i'r plentyn gael ei leoli mewn lleoliad gwahanol ac yn ystod unrhyw gyfweliadau 'dychwelyd i'r lleoliad'.

  Mae gan yr awdurdod lleol sy'n lleoli gyfrifoldeb i hysbysu plant a phobl ifanc o dan Ran 10 o'r Ddeddf - hysbysu plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi annibynnol i blant – sy'n aml ymhell o ardal eu cartref, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth. Mae swyddogaeth gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyriaethau allweddol.

5.6 Yn olaf, i gloi, mae'r astudiaeth gwmpasu wedi amlygu dau bryder penodol sy'n gofyn am ymchwiliad ychwanegol:

- Sut y mae materion trawsffiniol yn effeithio ar gyflawniad swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag eiriolaeth i blant (o dan ran 10 o'r Codau Ymarfer). Er bod yr astudiaeth gwmpasu wedi nodi rhai enghreifftiau o gysylltiadau rhagorol ac mewn rhai achosion, trefniadau dwyochrog rhwng awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth, nid yw'n glir sut y mae plant o Gymru sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi plant yn Lloegr yn cael gafael ar gymorth eiriolaeth annibynnol ac i'r gwrthwyneb.

- Yr arfer parhaus pan fo rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, sydd fel arfer yn daer am wely mewn argyfwng, yn lleoli plant sy'n derbyn gofal mewn cartrefi plant heb eu cofrestru.

# ATODIAD A: RHESTR O DERMAU

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Cynnig Rhagweithiol | Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn elfen newydd i'r ddarpariaeth o eiriolaeth statudol. Mae'n cynnwys cyfarfod dynodedig rhwng plentyn neu berson ifanc ac eiriolwr ar gyfer unrhyw:<br>• Blentyn neu berson ifanc sy'n ymuno â'r system ofal<br>• Plentyn neu berson ifanc sy'n dechrau yn y maes Amddiffyn Plant |
| Eiriolaeth | Mae eiriolaeth yn hyrwyddo'r safbwyntiau, y dymuniadau a'r teimladau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ac y gweithredir arnynt yn ystod y broses benderfynu sy'n effeithio ar fywyd unigolyn.<br>Nid yw'n golygu gweithredu o safbwynt yr hyn sydd fwyaf llesol, ond mae'n ceisio cynrychioli llais y person gan ymochri ag ef. |
| Eiriolwr | Eiriolwr yw rhywun sy'n cefnogi pobl eraill i godi eu lleisiau fel bod eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed, ac yn sicrhau eu bod yn deall eu hawliau. Gall eiriolwyr fod yn gyflogedig, yn weithwyr gwirfodd gydag asiantaeth, neu'n aelodau o deulu neu gymuned sy'n dymuno rhoi cymorth. |
| Person Annibynnol | Person annibynnol yw:<br>i) Y person a benodir gan awdurdod lleol i oruchwylio'r broses wrth i'r Swyddog Ymchwilio gynnal ymchwiliad i Gam 2 o gŵyn.<br>ii) Y person a benodir gan yr awdurdod lleol i fod yn aelod o banel a benodir i adolygu Gorchymyn Llety Diogel. |
| Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol | Mae gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol yn cynnwys partneriaeth unigol rhwng unigolyn ac eiriolwr proffesiynol annibynnol hyfforddedig, sy'n cael ei dalu, ac sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ymgymryd â'i swyddogaeth broffesiynol o fod yn eiriolwr. Bydd yr eiriolwr yn cael ei gyflogi a'i oruchwylio gan sefydliad sy'n annibynnol ar adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. |
| Ymwelydd Annibynnol | Gwirfoddolwr sy'n buddsoddi ei amser i gefnogi a bod yn gyfaill i blentyn neu berson ifanc sydd mewn gofal yw Ymwelydd Annibynnol. Perthynas hirdymor yw'r disgwyliad. Mae'n rhaid i Ymwelydd Annibynnol fod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. |
| Swyddogion Adolygu Annibynnol | Gweithwyr cymdeithasol, sydd hefyd yn rheolwyr gwaith cymdeithasol profiadol, sydd â'r ddyletswydd o sicrhau bod |

| | |
|---|---|
| | cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cydymffurfio â'r gyfraith ac er lles gorau y plentyn yw Swyddogion Adolygu Annibynnol. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cadeirio cynadleddau achosion amddiffyn plant a chyfarfodydd adolygu bob chwe mis ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. |
| Y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth | Dull Cymru gyfan o ymdrin â gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol, a fabwysiedir gan Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru yw'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth. Mae ganddo nifer o egwyddorion trosfwaol gan gynnwys safoni'r modd y darperir gwasanaethau (eiriolaeth sy'n seiliedig ar broblemau) hygyrchedd y gwasanaethau (meini prawf cymhwysedd) a nifer o elfennau allweddol, gan gynnwys y Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth a thempledi ar gyfer monitro a chofnodi'r perfformiad lleol a rhanbarthol.<br><br>Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth hefyd yn adlewyrchu'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth, gan sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu comisiynu a'u darparu yn unol â'r safonau. |
| Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd | Gydag eiriolaeth heb gyfarwyddyd, bydd yr eiriolwr yn arsylwi'r plentyn neu'r person ifanc a'i sefyllfa, yn chwilio am ddull amgen o gyfathrebu, yn casglu gwybodaeth oddi wrth bobl arwyddocaol ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc, os yw hynny'n briodol, ac yn gweithio i sicrhau bod ei hawliau'n cael eu parchu. |
| Gwasanaeth Ymweliadau Eiriolaeth Preswyl | Mae Gwasanaeth Ymweliadau Eiriolaeth Preswyl yn cynnwys eiriolwr proffesiynol annibynnol sy'n ymweld â chartref plant neu leoliad gofal preswyl ar adeg a ragnodwyd yn rheolaidd er mwyn darparu cymorth gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i breswylwyr sy'n gofyn amdano. |
| Eiriolwr sy'n Cynnal Ymweliadau Preswyl | Mae eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n byw oddi cartref mewn cartrefi plant, ysgolion preswyl a lleoliadau gofal iechyd preswyl, gan sicrhau bod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed a'u parchu. Maent yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn sefydlu perthynas â'r preswylwyr, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael iddynt am eu hawliau a'u bod yn deall sut i gael gafael ar wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol. Mae'r eiriolwr sy'n cynnal ymweliadau preswyl hefyd yn darparu cymorth eiriolaeth sy'n seiliedig ar broblemau. |
| Cyfweliadau Dychwelyd i'r Lleoliad | Cyfweliadau a gynhelir gan weithiwr proffesiynol annibynnol (a allai fod yn eiriolwr) ar ôl i blentyn neu berson ifanc ddychwelyd i gartref plant neu leoliad ar ôl iddo fod ar goll. |

# ATODIAD B: SEFYDLIADAU A GYMERODD RAN YN YR ASTUDIAETH GWMPASU

Aran Hall (Senad Group)

Barnardo’s Better Futures Cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (y 4C)

Plant yng Nghymru

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Tîm Plant sydd ar Goll Gwent

Awdurdodau lleol – rhanbarth y De-orllewin, rhanbarth Gwent, Caerdydd, RhCT, Sir Ddinbych, Abertawe, Gwynedd.

Meic

Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Blant sy’n Derbyn Gofal (Ymgynghorydd)

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Priority Childcare Ltd

Priory Group Ltd

Unique Homes Ltd.

TGP Cymru

Voices from Care

Llywodraeth Cymru